

Byw gyda thensiwn

“... nyni sydd â blaenffrwyth yr Ysbryd gennym, yr ydym ninnau’n ochneidio ynom ein hunain.” (adn. 23)

Beth am ddarllen Rhufeiniaid 8:23–39 ac yna myfyrio

Ddoe, sylwyd fod y greadigaeth i gyd yn ochneidio, ond nid y greadigaeth yn unig. “Yr ydym ni hefyd,” meddai’r apostol Paul, “yn ochneidio wrth ddisgwyl i weld pechod a’i effeithiau yn cael ei alltudio o fydysawd Duw.” Mae’n bwysig sylwi mai’r rhai sydd wedi eu meddiannu gan yr Ysbryd sydd yn ochneidio fel hyn. Nid yw’r anghredinwyr yn rhannu’r profiad. Gwaith yr Ysbryd yw gwneud i’n heneidiau sylweddoli fod yna rywbeth o’i le gyda phob peth. Nid ein llenwi â digalondid y mae’r ffaith yma, ond yr ydym yn ei derbyn. Mae rhai Cristnogion, wrth gwrs, yn gwrthod derbyn yr agwedd yma ar y bywyd Cristnogol, gan fodloni yn hytrach ar ddealltwriaeth rannol o weinidogaeth yr Ysbryd sy’n esgor ar gariad, llawenydd, heddwch, ac yn y blaen. Ond, mae profi llawenydd a heddwch yn rhan o’r un profiad sydd yn esgor ar brofi’r ochenaidd yn y galon.

Os mai’r llawenydd a’r heddwch yn unig sydd yn ein meddiant, mae rhywbeth rhyfedd ynglŷn â’n profiad. Hawdd iawn fuasai i ni fynd trwy ein bywyd yn meddwl am ddim ond am ein hunain, gan anwybyddu cyflwr y greadigaeth. Yr ochenaidd sydd yn diogelu balans wrth inni sylweddoli na all perffeithrwydd ddeillio ymdrechion dynol yn unig. Yn y seithfed bennod o’r epistol hwn at y Rhufeiniaid, mae’r apostol yn sôn am ei hun fel un sydd wedi ei werthu yn gaethwas i bechod. Does ryfedd, wrth inni ystyried y drwg mae pechod wedi ei greu yn y byd, a’r hyn mae pechod yn parhau i’w greu, ein bod yn ochneidio. Peidiwch â gwadu’r ochenaidd sydd yn deillio yn uniongyrchol o bresenoldeb yr Ysbryd. Nid wyf am aralleirio’r Ysgrythur trwy ddweud mai etifeddiaeth yr Ysbryd yw ochenaidd, ond nid yw ymhell o’r hyn sydd yn wir.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Cor. 5:1–10; Ioan 15:19; 18:36

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa ddau ddimensiwn sydd yn perthyn i’n hochenaidd ysbrydol?
2. Pa beth a ffafria’r apostol?

Gweddi

O Dad, er fy mod yn gweld y tensiwn sydd rhwng llawenydd ac ochenaidd, eto yr wyf i fyw â’r ddau. Mae fy llawenydd yn deillio o’r ffaith dy fod wedi fy achub. Mae’r ochenaidd yn deillio o fyw mewn byd sydd wedi ei alltudio. Cynorthwya fi i fyw gyda’r tensiwn yma trwy Iesu Grist. Amen.